



SWYDD-DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd	Gwasanaethau Pobl - Cynghorydd Cydymffurfiaeth a Sicrhau Ansawdd	
Rhif y Swydd:	505428	
Gradd/Rôl:	13	
Adran:	Gwasanaethau Pobl	
Lleoliad:	Pencadlys y Gwasanaeth Tân	
Yn gyfrifol i'r:	Pennaeth Gwasanaethau Pobl	
Yn Gyfrifol am:	Ddim yn berthnasol	
Gofyniad i fod yn Siaradwr Cymraeg (Hanfodol neu Ddymunol):		Dymunol

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae'r Cynghorydd Cydymffurfiaeth Gwasanaethau Pobl a Sicrwydd Ansawdd yn cefnogi darpariaeth y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl, gan wneud y gorau o berfformiad yn erbyn targedau ac amcanion trwy sicrhau bod gweithgareddau cyflawni yn cael eu prosesu, eu cofnodi a'u dogfennu yn unol â safonau mewnol ac allanol rhagnodedig.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Ar y cyd â Phennaeth Gwasanaethau Pobl, gweithredu cynllun archwilio mewnol proses a chydymffurfiaeth sy'n adolygu safonau gweithredu, prosesau a systemau Gwasanaethau Pobl i sicrhau bod cydymffurfiaeth â gofynion cytundebol, gweithdrefnol a sefydliadol yn cael eu bodloni.
2. Cynllunio ac ymgymryd â thasgau proses a chydymffurfio i fonitro ac adolygu gweithgarwch cyflawni yn rheolaidd a chadw at brotocolau gweithredol y cytunwyd arnynt, e.e. prosesau'n cael eu cwblhau yn unol â CLGau, archwiliadau ffeiliau, tystiolaeth o ganlyniadau ymyriadau a'u dogfennu'n cydymffurfio, mae systemau gwaith cadarn ac effeithiol ar waith.
3. Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad gan gydweithwyr sy'n ymwneud â phroses a chydymffurfiaeth. Cefnogi rheolwyr llinell i roi gwybod iddynt yn brydlon am newidiadau a diweddarau a chyfathrebu datblygiadau i'r tîm ehangach.
4. Cyflawni dyletswyddau i safon uchel o wasanaeth cwsmeriaid mewn modd proffesiynol ac amserol.
5. Sganio'r gorwel ar gyfer newidiadau rheoleiddiol a deddfwriaethol o fewn y maes Cyfraith Cyflogaeth, cefnogi'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Pobl drwy nodi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus, e.e. gweithdrefnau, systemau gwaith.
6. Adolygu rheolaeth gywir o ddata gan sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei gofnodi'n effeithiol ac yn gywir ar systemau TG, gan gynorthwyo gyda chynhyrchu metrigau



perfformiad a data.

7. Nodi ac adrodd ar faterion diffyg cydymffurfio. Ar y cyd â'r Pennaeth Gwasanaeth, datblygu a gweithredu gwrthfesuerau gyda Rheolwyr Gwasanaethau Pobl i adolygu a chytuno ar welliannau parhaus a/neu arferion diwygiedig i sicrhau bod cysoni ar draws y gwasanaeth.
8. Cynnal ac adolygu data boddhad gweithwyr o bryd i'w gilydd. Dadansoddi —gwybodaeth, ymchwilio i feysydd sy'n peri pryder gyda Rheolwyr Gwasanaethau Pobl, cyflwyno adroddiad o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer gwelliannau parhaus i'r Pennaeth Gwasanaeth.
9. Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i gysylltu â'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a rhanddeiliaid eraill yn ôl yr angen mewn perthynas â datblygu prosesau a safonau gweithredu Gwasanaethau Pobl.
10. Cefnogi'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Pobl gyda dilyniant effeithiol prosiectau parhaus.
11. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaethau Pobl.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy adolygiad effeithiol o brosesau a gweithdrefnau ar y cyd â Phartner Busnes DICE.
13. Cynnal ymwybyddiaeth, hyfforddiant a DPP cyfredol o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut y dylid darparu ein gwasanaethau yn broffesiynol i bob cwsmer mewn Gwasanaeth cynhwysol.
14. Darparu gwasanaeth cynhwysol yn unol â gwerthoedd y Gwasanaeth.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:-

15. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r raddfa a'r swydd.
16. Mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
17. Cydweithredu'n llwyr ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
18. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle a Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni eu dyletswyddau.
19. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg o niwed, gan roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu gan ddefnyddio Gweithdrefn Diogelu'r Gwasanaeth.
20. Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol dros eich iechyd a diogelwch eich hun ac eraill.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service